


# Polisi Rhyw a Pherthynas

**Dyddiad yr adolygwyd gan y Corff Llywodraethol:** 28 Mawrth 2019

Llofnod y Cadeirydd: ______________________________________________

**Dyddiad yr adolygwyd gan y Corff Llywodraethol:**

Llofnod y Cadeirydd: ______________________________________________

**Dyddiad yr adolygwyd gan y Corff Llywodraethol:**

Llofnod y Cadeirydd: ______________________________________________

# Polisi Rhyw a Pherthynas

Dysgir addysg ryw o dan ymbarél y Rhaglen Fugeiliol a'r Rhaglen Addysg Bersonol a Chymdeithasol yn ogystal ag o fewn gwersi Bioleg ac Addysg Grefyddol.

## Nodau ac Amcanion Addysg Ryw a Pherthynas

Sicrhau fframwaith moesol sy'n annog disgyblion i ystyried hunan ddisgyblaeth, urddas a hunan barch a galluogi disgyblion i werthfawrogi gwerth bywyd teuluol sefydlog a chyfrifoldeb bod yn rhiant trwy:

- Cyflwyno'r ffeithiau ynglŷn â datblygiadau corfforol ac emosiynol cyfnod blaen lencyndod a sicrhau dealltwriaeth ohonynt
- Gyflwyno'r ffeithiau ynglŷn â rhyw, atal-cenhedlu, erthylu, clefydau rhywiol, AIDS yng nghyd-destun moesol perthynas o barch a chariad, a chreu ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau a chanlyniadau perthynas rywiol
- Dangos i'r disgyblion pwysigrwydd gwneud penderfyniadau personol, unigol ynglŷn â pherthynas rywiol. Eu hannog i beidio â derbyn yn ddiamod safonau a osodir arnynt gan gyfoedion a'r cyfryngau
- Rhoi'r cyfle i'r disgyblion fynd trwy'r broses o feddwl a thrafod materion yn ymwneud â rhyw fel eu bod yn abl i wynebu sefyllfaoedd bywyd yn y dyfodol yn fwy aeddfed, sensitif a meddylgar

## Cyflwyno Addysg Rhyw a Pherthynas

Cyflwynir y mwyafrif o'r gwersi gan y Tiwtoriaid Dosbarth o fewn cyd-destun ehangach y rhaglen ABCH ar gyfer y flwyddyn. Yn CA4 gwneir defnydd o Adran Hybu Iechyd yr Awdurdod Iechyd a threfnir sesiynau Addysg Ryw ar gyfer Bl.10 ar y cyd gyda'r Adran. Yn ystod y sesiynau, mae'r Ymwelyddion Iechyd yn ymdrin â'r pynciau canlynol gyda grwpiau o ddisgyblion:

- Atal Cenhedlu
- Beichiogrwydd
- Perthnasoedd
- Clefydau a Drosglwyddir Trwy Rhyw

## Strwythur y Gwersi ac Athroniaeth y Cwrs

Mae Addysg Rhyw a Pherthynas yn cyflwyno gwybodaeth ac yn annog disgyblion i ddatblygu sgiliau ac agweddau sy'n caniatáu iddynt drefnu eu bywydau mewn ffordd iach a chyfrifol. Bydd cynnwys y rhaglen yn dilyn argymhellion y Fframweithiau perthnasol ac yn sicrhau dilyniant o un cyfnod allweddol i'r llall. Strwythurir y gwersi yn ofalus fel bod cyd-destun moesol a chyfrifol yn cael ei osod yn glir fel sail i bob trafodaeth. Y prif nod yw, bod dewis gan bob unigolyn a bod canlyniadau emosiynol a chorfforol i'r dewis hwnnw. Pwysleisir y syniad o hunan-barch a pharch at eraill a hefyd y syniad o gyfrifoldebau bod yn rhiant.

Gan bod strwythur y gwersi fel arfer yn wersi trafod gall materion sensitif godi yn ystod y gwersi. Mae'n ofynnol i staff yr ysgol yn ogystal â'r disgyblion a rhieni fod yn ymwybodol o drefn yr ysgol wrth drafod y sefyllfaoedd hyn.

## Cyfrinachedd a chyngor

Hysbysir y disgyblion nad oes modd cadw pob gwybodaeth yn gyfrinach. Bydd rhai ffeithiau a ddatgelir yn arwain at weithredu pendant. Ar yr un pryd, cynigir cefnogaeth sensitif ac addas i'r disgybl bob amser. Bydd pob aelod o'r staff yn cadw at y drefn a ganlyn:

- Os bydd aelod o'r staff yn clywed am achos o gam-drin neu'n amau cam-drin posibl rhaid dilyn trefn yr ysgol i amddiffyn plentyn. *(Gweler y Polisi Diogelu Plant)*
- Os bydd aelod o'r staff yn clywed bod disgybl yn feichiog neu'n cael cais am gymorth ynglŷn ag atal cenhedlu, dylid dilyn y canllawiau canlynol:
  **(i)** Dylid annog disgyblion i ddweud wrth eu rhieni a dylid cynorthwyo i wneud hynny os ydyw'n gymwys.
  **(ii)** Os bydd y disgybl yn gwrthod dylai'r aelod staff gyfeirio'r disgybl at berson proffesiynol ym myd iechyd.
  **(iii)** Dylai'r aelod staff gofnodi'r digwyddiad a rhoi gwybod i'r Pennaeth neu'r Dirprwy.

## Bywyd teuluol

Mae gwerth bywyd teuluol yn dra phwysig. Trafodir yr agwedd hon drwy ystyried safonau a pherthynas rhwng gwahanol aelodau o'r grŵp gan bwysleisio sefydlogrwydd, parch, gofal a chefnogaeth.

## Atal cenhedlu, HIV/AIDS, rhywioldeb ac erthyliad

Fel rhan o addysg rhyw a pherthynas, trafodir atal cenhedlu, HIV/AIDS, rhywioldeb ac erthyliad. Cyflwynir ffeithiau mewn modd gwrthrychol a chytbwys, gan annog y disgyblion i ystyried eu hagweddau a'u gwerthoedd eu hun yn ogystal ag agweddau a gwerthoedd pobl eraill. Dangosir i'r disgyblion y gwahaniaeth rhwng ffaith, barn a chred grefyddol.

## Achwyniadau

Dylid cyflwyno unrhyw achwyniadau am y Cwricwlwm Rhyw a Pherthynas i'r Pennaeth neu'r Dirprwy.

## Partneriaeth rieni

Gofynnir i rieni sy'n dymuno i'w plentyn adael y dosbarth gwrdd â'r Pennaeth neu'r Dirprwy i drafod eu problemau; nid oes rhaid iddynt wneud hynny. Unwaith bydd plentyn wedi gadael dosbarth, ni all ail ymuno â'r dosbarth hyd nes bod caniatâd ysgrifenedig yn dod oddi wrth y rhieni.

## Dulliau Addysgu a dysgu

- Cyflwyniadau ffeithiol/didactig yn defnyddio arbenigwyr allanol pan fo angen
- Ffilmiau fideo - sefyllfaoedd am bobl ifanc, hanesion dychmygol
- Trafodaeth grŵp a dosbarth dan arweiniad yr athro
- Taflenni gwaith amrywiol.

## Canllawiau i Athrawon sy'n Dysgu'r Cwrs

- Ceir canllawiau manwl ar gyfer pob gwers Addysg Bersonol a Chymdeithasol.
- Os oes trafodaeth dosbarth yn rhan o'r wers yna cynllunnir yn ofalus pa gwestiynau yn union y trafodir: yr athro sy'n llywio'r drafodaeth.